



# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

## Papur Cefndir

**Medi 2024**

## PC 60: Astudiaeth Safleoedd Ynni Adnewyddadwy

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor . Mae copïau ar gael i'w gweld hefyd ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir cael copi hefyd gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech siarad â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol am unrhyw agwedd o'r ddogfen hon cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 576311 / 575445 / 575432 / 574232 / 575447.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461**.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

**Cynnwys** **Tudalen**

1. Cyflwyniad .... 5
1.1 Pwrpas y Papur Testun .... 5
1.2 Cefndir i’r Polisïau Drafft .... 5
1.3 Datblygiad Polisi a Strwythur y Papur Testun hwn .... 6
2. Cyfiawnhad ar gyfer Ymagwedd Polisi .... 7
2.1 Yr Egwyddor o Gynllunio Ymyrraeth Polisi .... 7
2.2 Ymagwedd Polisi .... 9
2.3 Ymgynghoriad ar y Polisi Drafft .... 10
Yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd hyd yma .... 10
3. Polisïau Drafft .... 12
3.1 Cyflwyniad .... 12
3.2 Polisi Strategol Cefnogi Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel .... 12
3.3 Polisi Strategol Drafft 1: Cefnogi Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel 14
Cyflwyniad .... 14
Testun y Polisi Drafft .... 14
**Polisi Drafft 1 Cefnogi Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel** .... 14
Eglurhad .... 14
3.4 Polisi Drafft 2: Cynhyrchu Ynni Solar a Gwynt mewn Ardaloedd a Rag-aseswyd ac Ardaloedd Chwilio Lleol .... 16
Cyflwyniad .... 16
Testun y Polisi Drafft .... 17
**Polisi Drafft 2 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy yn yr Ardaloedd a Rag-aseswyd, Ardaloedd Chwilio Lleol a Thu Hwnt** .... 17
Eglurhad: .... 19
Ardaloedd a Rag-aseswyd .... 19
Ardaloedd Chwilio Lleol .... 19
Polisïau lleol yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer Cynhyrchu Ynni Solar a Gwynt y tu allan i Ardaloedd a Rag-aseswyd ac Ardaloedd Chwilio Lleol .... 21
Technolegau Eraill .... 21
Gweithredu .... 22
3.5 Polisi Drafft 3: Ynni Adnewyddadwy a Arweinir gan y Gymuned a sydd Er Budd i’r Gymuned .... 24
Cyflwyniad .... 24
Testun y Polisi Drafft .... 24
**Polisi Drafft 3 Ynni Adnewyddadwy a Arweinir gan y Gymuned a sydd Er Budd i’r Gymuned** .... 24
Eglurhad .... 24

**Tablau**

Tabl 1 Crynodeb o Ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir .......................................... 10
Tabl 2 Capasiti dangosol yr Ardaloedd Chwilio Lleol.................................................. 20

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas y Papur Testun

1.1.1 Mae'r Papur Testun hwn yn nodi'r polisïau drafft, ochr yn ochr â gwybodaeth ategol a chyfiawnhad, mewn perthynas â chynhyrchu ynni **adnewyddadwy a charbon isel ar y tir ac yn annibynnol** yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) ar gyfer Conwy. Yn benodol mae'n ceisio diweddaru polisïau presennol y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd a chyflwyno ardaloedd sy'n ymwneud yn benodol â thechnoleg, a elwir yn 'Ardaloedd Chwilio Lleol' ochr yn ochr â'r Ardaloedd a Rag-aseswyd ar gyfer Gwynt Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn anelu i ddatblygu'r ymyrraeth a nodwyd o ran ynni adnewyddadwy ar y tir yng Nghynllun Ynni Ardal Leol CBSC.

## 1.2 Cefndir i'r Polisïau Drafft

1.2.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022 ar hyn o bryd yn darparu'r fframwaith polisi a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli datblygiad a'r defnydd o dir o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC). Er fod y Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd yn cynnwys polisïau yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a thechnolegau adnewyddadwy, a datblygiad tyrbinau gwynt ar y tir, roedd y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn weddol dawel o ran y cysylltiadau rhwng mynd i'r afael â newid hinsawdd a chreu ynni o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel. Ceir mwy o fanylion am y polisïau hyn a fabwysiadwyd yn Atodiad 1.

1.2.2 Mae CBSC nawr yn paratoi CDLlN a bydd cyfnod y cynllun o 2018 i 2033. Yn nhermau'r camau blaenorol, fe ymgynghorodd CBSC ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLlN yn 2019 ac mae nawr yn paratoi ei Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

1.2.3 Roedd y Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys y Polisi Strategol drafft canlynol (Polisi Strategol 32):

1.2.4 *"I hyrwyddo cymysgedd o ffynonellau cynhyrchu ynni, storio ynni a dylunio adeiladau a all gyflawni twf yn lân a chyfrannu at ddatgarboneiddio ynni yn ogystal â bod yn wydn i effeithiau newid hinsawdd."*

1.2.5 Bydd y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cynnwys polisïau manwl mewn perthynas â datblygiad ynni adnewyddadwy (yn benodol ynni gwynt a solar ar y tir ac yn annibynnol) i gefnogi'r polisi strategol hwn, sef diben y Papur Testun hwn. Bydd y

polisïau manwl hyn yn cael eu cysylltu â bodloni amcanion canlynol y cynllun strategol:

- **Amcan Strategol 1 (AS1):** Cyfrannu at greu mannau cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd gwych.
- **Amcan Strategol 10 (AS10):** Sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni, gan gynnwys hyrwyddo Morlyn Llanw, sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl i economi a chymunedau Conwy tra'n sicrhau fod yr effaith amgylcheddol a chymdeithasol mor isel â phosibl.

1.2.6 Dylid nodi y bydd y polisïau drafft a nodir yn y Papur Testun hwn yn destun ymgynghoriad pellach a gynhelir ar y CDLlN cyn ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ar gyfer ei archwilio'n annibynnol.

## 1.3 Datblygiad Polisi a Strwythur y Papur Testun hwn

1.3.1 Mae'r Papur Testun hwn wedi ei lywio gan ymchwil a chasglu tystiolaeth sy'n berthnasol i dargedau ynni adnewyddadwy a pholisïau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Caiff yr ymchwil hwn ei nodi yn atodiadau'r ddogfen hon sy'n cynnwys:

- **Atodiad A: Deddfwriaeth ac Adolygiad Polisi** – gan gynnwys trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n berthnasol i ynni adnewyddadwy ac adolygiad o'r cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yn ogystal â'r strategaeth ehangach a chanllawiau ar y testun hwn.
- **Atodiad B: Adolygiad o Arfer Da ac Astudiaethau Achos** – gan gynnwys dadansoddiad manwl o'r ymagwedd a gymrwyd gan Gynlluniau Datblygu Lleol eraill a fabwysiadwyd yn ddiweddar yng Nghymru o ran datblygu polisïau mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy.
- **Atodiad C: Diffinio Dewisiadau Gofodol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel** – yn nodi sut mae ardaloedd o ran cyfleoedd ynni gwynt a solar a nodwyd ym mholisi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi eu diffinio.

# 2. Cyfiawnhad ar gyfer Ymagwedd Polisi

## 2.1 Yr Egwyddor o Gynllunio Ymyrraeth Polisi

2.1.1 Cymru'r Dyfodol: mae'r cynllun cenedlaethol 2040 ('Cymru'r Dyfodol') yn nodi'n glir fod *'rhaid i'r system gynllunio helpu Cymru i arwain y ffordd o ran hyrwyddo a chyflawni cymdeithas gystadleuol, gynaliadwy sydd wedi datgarboneiddio*'. Fel nodir mewn manylder yn Atodiad A, caiff Cymru'r Dyfodol ei gefnogi gan Bolisi Cynllunio Cymru sy'n ymgorffori targedau ynni adnewyddadwy uchelgeisiol Llywodraeth Cymru mewn polisi, gan gynnwys:

- Fod 70% o ddefnydd ynni Cymru o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- Fod un Gigawat o gapasiti ynni adnewyddadwy Cymru mewn perchnogaeth leol erbyn 2030; a
- Bod prosiectau ynni newydd ag elfen o leiaf o berchnogaeth leol.

2.1.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio Cynlluniau Ynni Ardal Leol neu dystiolaeth o gynllun datblygu arall i nodi targedau ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n ei wneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol i ystyried yr adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael iddynt a defnyddio'r ystod lawn o ddewisiadau polisi sydd ar gael i benderfynu'r targed hwn. Mae Paragraffau 5.9.10 a 5.9.14 yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau'r cynllun i osod meini prawf lleol a bydd y cynigion yn cael eu gwerthuso yn eu herbyn, a nodi lleoliadau gofodol priodol ar gyfer datblygiadau ynni sydd o dan 10MW. Y tu hwnt i'r ardaloedd hyn mae Paragraff 5.9.15 yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnwys maen prawf y byddai ceisiadau cynllunio y tu allan i ardaloedd a nodwyd yn cael eu penderfynu yn eu herbyn.

2.1.3 Fe gyhoeddwyd Cynllun Ynni Ardal Leol Conwy yn 2022 ac roedd yn gosod y targedau hyn mewn cyd-destun lleol. Ar gyfer Conwy, mae'r targedau hyn yn cynnwys:

- Creu hyd at 40MW o ffynonellau ynni adnewyddadwy ychwanegol ar y tir erbyn 2028, ochr yn ochr â fferm wynt Awel y Môr ar y môr a ffynhonnell ynni adnewyddadwy 1 GW dan berchnogaeth leol erbyn 2030;
- Darparu morlyn llanw 1GW erbyn 2035;

- Gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy ychwanegol ar y tir a fydd yn creu hyd at 690MW erbyn 2050[1].

2.1.4 Fe fu i waith tystiolaeth gychwynnol, a baratowyd i lywio'r CDLl ac a gaiff ei adnabod fel yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (2019), ymgymryd ag asesiad lefel uchel wedi ei seilio ar fapio'r cyfyngiadau allweddol ar gyfer pob technoleg. Wrth wneud hynny, ystyriwyd yn wreiddiol nad oedd yna unrhyw ardaloedd addas ar gyfer ynni gwynt na phaneli ffotofoltäig wedi eu gosod ar y tir. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Ynni Ardal Leol cafodd 'goblygiadau'r Cynllun Ynni Ardal Leol o ran polisi'r CDLl' (wedi hyn 'yr Astudiaeth o Oblygiadau') ei baratoi gan ddefnyddio ymagwedd seiliedig ar gyfyngiadau i bennu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu, gyda chyfyngiadau tebyg yn cael eu gweithredu a oedd wedi eu gweithredu i'r dystiolaeth gyfatebol ar gyfer Cymru'r Dyfodol. Darganfu'r dadansoddiad gofodol fod yna botensial sylweddol ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt a ffotofoltäig yng Nghonwy:

- Gall y potensial fod ar gael ar gyfer tua 496MW o gapasiti gwynt wedi ei osod a 2,231MW o gapasiti i gynhyrchu ynni drwy baneli ffotofoltäig wedi'u gosod ar y tir, yn seiliedig ar asesiad a arweiniwyd gan gyfyngiadau.
- Y potensial ar gyfer cynhyrchu tua 6MW o ynni drwy dyrbinau gwynt, 6.2MW drwy gynhyrchu ynni gyda phaneli ffotofoltäig wedi'u gosod ar y tir a 6.5MW drwy gynhyrchu ynni gyda phaneli ffotofoltäig ar y to ar asedau'r Cyngor.

2.1.5 Yn dibynnu ar y cyfyngiadau a ystyrir, mae yna densiynau o fewn y dystiolaeth leol a baratowyd yn ddiweddar o ran sefydlu sut y caiff gofynion Polisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun Ynni Ardal Leol eu bodloni yng nghyd-destun y CDLlN. I'r perwyl hwn, mae Atodiad A *Dadansoddiad o Gyfyngiadau* yn archwilio tarddiad y cyfyngiadau a allai gael eu gweithredu i dechnolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy, tra bod Atodiad B yn adolygu'r ymagweddau'n ymwneud ag arfer da a gymrwyd gan enghreifftiau o'r CDLl a fabwysiadwyd. Mae Atodiad C *Diffinio Dewisiadau Gofodol ar gyfer Ardaloedd Cyfle Ynni Adnewyddadwy* wedyn yn egluro'n fanwl goblygiadau gofodol y dadansoddiad cyfyngiadau hwn a'r dewisiadau polisi o ganlyniad a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

[1] https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Replacement-LDP/Stage-4-Development-of-Evidence-Base/assets/documents-RenewableEnergy/BP55-Local-Area-Energy-Plan.pdf

## 2.2 Ymagwedd Polisi

2.2.1 Fel y nodwyd uchod, mae Cymru'r Dyfodol yn datgan yn glir y cyfraniad y gall y system gynllunio ei wneud o ran datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn cynnwys darpariaeth bolisi ar gyfer datblygiadau yr ystyrir eu bod yn 'Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Caiff Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu pennu gan Weinidogion Cymru ac maent yn cael eu diffinio fel:

- Cynhyrchu 10 neu fwy megawat o ynni ar y tir; a
- Safleoedd cynhyrchu ynni eraill sy'n creu ynni rhwng 10 a 350MW.

2.2.2 Caiff Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu pennu yn unol â'r polisïau a gaiff eu cynnwys yng Nghymru'r Dyfodol.

2.2.3 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 'Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu' ar gyfer ynni gwynt, ac ynddynt mae yna ragdybiaeth o blaid cynhyrchu ynni gwynt a solar ar raddfa fawr. Mae yna ddwy ardal a rag-aseswyd ar gyfer ynni gwynt sydd wedi eu lleoli yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ffiniau gweinyddol CBSC, fel nodwyd yn Atodiad A.

2.2.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn eglur na ddylai awdurdodau geisio diwygio'r 'Ardaloedd a Rag-aseswyd' ar gyfer ynni gwynt, ac na ddylai polisi lleol gael effaith niweidiol ar allu datblygiadau gwynt ar raddfa fawr sy'n dod ymlaen yn yr Ardaloedd a Rag-aseswyd. Fodd bynnag, mae'n nodi sut y gall yr Awdurdodau Cynllunio Lleol ddiffinio ardaloedd yn yr Ardaloedd a Rag-aseswyd ar gyfer defnydd tir arall (gan gynnwys safleoedd datblygu ynni adnewyddadwy o dan 10MW).

2.2.5 Caiff penderfyniadau ar unrhyw ddatblygiad ynni arfaethedig sydd yn is na'r trothwyon ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu gwneud gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yn unol â'r Cynllun Datblygu perthnasol. Yng Nghonwy bydd hyn yn cynnwys y CDLl mabwysiedig a Chymru'r Dyfodol. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi fod fframwaith polisi cynllunio cadarnhaol yn parhau i fodoli y tu allan i'r ardaloedd hyn.

2.2.6 Yn ychwanegol at Gymru'r Dyfodol, mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol ynglŷn â sut ddylai polisïau ynni adnewyddadwy gael eu datblygu, a beth ddylent ei gynnwys, a chaiff hynny ei nodi yn fanwl yn Atodiad A. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r Cynllun Ynni Ardal Leol i nodi targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y Cynlluniau Datblygu Lleol (Paragraff 5.9.5), gan sefydlu lleoliadau gofodol priodol ar gyfer 'rhagdybiaeth o blaid'

gosodiadau sy’n creu llai na 10MW (Paragraff 5.9.14) a chyflwyno polisïau lleol yn seiliedig ar feini prawf y tu hwnt i’r ardaloedd hyn (Paragraff 5.9.15).

2.2.7 Y tu allan i’r Ardaloedd a Rag-aseswyd, mae Ardaloedd Chwilio felly wedi eu dyfeisio ar gyfer gosodiadau sy’n cynhyrchu llai na 10MW. Mae’r ymagwedd tuag at bennu’r ardaloedd hyn wedi ei nodi o fewn yr Atodiad, ac mae ar hyn o bryd yn agnostig i’r capasiti sydd ar gael. Dylai’r capasiti a nodir isod felly gael ei drin fel yr ‘uchafswm’ o ran y cyfanswm, gydag ymgysylltu’n parhau i ddigwydd gyda gweithredwr y rhwydwaith dosbarthu a throsglwyddo i adolygu’r capasiti hwn.

## 2.3 Ymgynghoriad ar y Polisi Drafft

### Yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd hyd yma

2.3.1 Fe ymgynghorodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ar Strategaeth a Ffefrir y CDLlN rhwng 29 Gorffennaf a 20 Medi 2019 fel rhan o Gam 5 proses adolygu’r CDLlN. Roedd yna dri ymateb yn ymwneud â chreu ynni adnewyddadwy i gyd, ac roeddent i gyd gan yr ymgyngoreion statudol gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

2.3.2 Mae crynodeb o’r ymatebion hyn i’r ymgynghoriad wedi eu grwpio yn Tabl 1 isod.

**Tabl 1 yn Cynnwys Crynodeb o Ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir**

| Thema | Crynodeb o’r Ymatebion | Ymateb o ran Polisi |
|---|---|---|
| Cydymffurfio gyda’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol | Mae ymatebwyr o Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru wedi dangos cefnogaeth ar gyfer ymagwedd y Strategaeth a Ffefrir i greu ynni adnewyddadwy o ystyried ei aliniad gyda’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. | Wedi i’r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ddod i ben mae’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi ei fabwysiadu fel Cymru’r Dyfodol. Fel nodir yn yr Atodiadau, ymgynghorwyd yn llawn ar ofynion polisi Cymru’r Dyfodol wrth ddrafftio polisïau’r CDLlN ar greu ynni adnewyddadwy. |
| Aliniad gydag awdurdodau sirol cyfagos. | Mae ymatebwyr o Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn mynegi y croesawir ymgynghoriad cynnar gyda Chyngor Sir Ddinbych yn nhermau datblygu ynni fel eu bod wedi eu halinio gyda fersiwn drafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. | Bydd CBSC yn parhau i ymgysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych wrth i’r CDLlN ddod yn ei flaen. |
| Aliniad gyda’r Ardaloedd a Rag-aseswyd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. | Mae ymatebwyr o Lywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at yr Ardaloedd a Rag-aseswyd (Ardaloedd Chwilio Strategol) sydd i’w cael yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ac yn nodi na ddaeth Asesiad Ynni Adnewyddadwy Conwy o hyd i unrhyw Ardal Chwilio Lleol gwynt na solar addas ac y dynodwyd un aráe solar. | Mae’r Papur Testun hwn a’r Atodiadau yn nodi rôl yr Ardaloedd a Rag-aseswyd, y cyfeirir atynt nawr yn fframwaith y polisi drafft, ac archwilio’r tensiynau rhwng y fersiynau amrywiol o dystiolaeth leol |

| Thema | Crynodeb o'r Ymatebion | Ymateb o ran Polisi |
| --- | --- | --- |
| | Mae'r ymateb yn awgrymu y dylai'r CDLIN:<br>a) ddangos sut mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi ei wreiddio ym mhroses y safle ymgeisiol ac egluro sut mae cyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi llywio graddfa a lleoliad twf;<br>b) Yn y polisi ac fel rhan o'r fframwaith monitro cynnwys cyfraniad ardal y cynllun tuag at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy a charbon isel;<br>c) Yn fframwaith y polisi cynnwys cyfleoedd ar gyfer cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol. | ers 2019. Mae'r fframwaith polisi drafft yn nodi rôl yr ardaloedd chwilio lleol yng Nghonwy, ochr yn ochr ag amcanion i'w monitro. |
| Cysylltiadau / trosglwyddiadau datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr a budd i'r gymuned. | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu yn ychwanegol at amlygu'r budd i'r gymuned ac anghenion perchnogaeth unrhyw waith ar y môr a gysylltir â datblygiad ar y môr (adran 6.7.32), dylai'r CDLIN hefyd ystyried goblygiadau trosglwyddo trydan ymlaen o ddatblygiad ynni adnewyddadwy ar y môr.  Awgrymir fod hyn yn hynod o bwysig os yw'r cynigion ar gyfer datblygiad ynni gwynt ar y môr ar raddfa fawr gan Ystâd y Goron, cynigion sydd mewn cyfnod cynnar iawn, yn cael eu dwyn ymlaen. | Nodwyd y sylw hwn ac mae wedi ei ystyried o fewn y fframwaith polisi drafft fel nodir yn Adran 3 isod. |

# 3. Polisïau Drafft

## 3.1 Cyflwyniad[2]

3.1.1 [Mae'r polisïau canlynol yn ymdrin â chefnogaeth drosfwaol ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yng Nghonwy, a sut bydd disgwyl i ddatblygiad fodloni'r gofynion ar gyfer cyrraedd y targed carbon sero net erbyn 2050].

*Mae'r polisïau drafft hyn yn rhagdybio yr ymdrinnir â mesurau i ostwng y galw, creu mesurau effeithlonrwydd wedi eu hintegreiddio i adeiladau, ynni adnewyddadwy integredig (fel paneli ffotofoltäig ar y to) a thechnolegau eraill ar y môr rywle arall o fewn y CDLlN.*

## 3.2 Polisi Strategol Cefnogi Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

3.2.1 [Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru darged sero net uchelgeisiol (o leiaf 100% o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr) ar gyfer 2050. Mae sero net yn golygu cydbwyso'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir drwy gael gwared ar yr un faint o'r atmosffer. Hefyd mae gan Gymru dargedau interim ar gyfer 2030 (gostyngiad o 63%) a 2040 (gostyngiad o 85%) a chyfres o gyllidebau carbon 5 mlynedd sy'n gosod swm fesul cam o allyriadau nwyon tŷ gwydr a allai gael eu rhyddhau pe bai Cymru'n bodloni'r targedau hyn].

3.2.2 [Mae tynged cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu ar ein gallu i gymryd camau radical i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol a chefnogi datblygiad cynaliadwy gwirioneddol]. Mae camau gweithredu yn hanfodol o ystyried fod effeithiau byd-eang y cynnydd mewn tymheredd a thywydd garw yn amlwg ac yn dwysáu, a bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar gymunedau ar hyd a lled Conwy, yn arbennig ardaloedd sydd mewn perygl o wynebu llifogydd.

3.2.3 Gyda'n gilydd mae gennym ni i gyd ran i'w chwarae mewn cyflawni'r hierarchaeth ynni: hynny yw, lleihau'r galw am allyriadau nwyon tŷ gwydr a gaiff eu hachosi gan bobl drwy symud oddi wrth danwyddau ffosil i greu ynni adnewyddadwy a lleihau echdynnu deunyddiau sy'n ddwys mewn carbon. Yn wir mae'r CDLlN yn chwarae rhan allweddol mewn cefnogi'r ymdrechion hyn; gyda llywodraeth genedlaethol a lleol yn cydnabod rôl y system gynllunio mewn hwyluso datgarboneiddio, hyrwyddo datblygiad ynni adnewyddadwy yn y lleoliadau cywir a chyflawni targedau allyriadau

[2] Cromfachau = Testun wedi ei godi o adolygiad CW 021023 Polisi Ynni Adnewyddadwy a Datganoledig

drwy ymagwedd integredig a chydlynol tuag at gynllunio ynni. Mae'n rhaid i bolisïau felly annog cyfleoedd ar gyfer creu manteision ar draws y system a fydd yn galluogi creu swyddi drwy economïau carbon isel teg, adfer natur, yr effaith ar iechyd a lles ein preswylwyr a phan fo hynny'n angenrheidiol creu cymunedau sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

3.2.4 Mae gan Gonwy rôl genedlaethol i'w chwarae mewn cefnogi datgarboneiddio cymunedau'r dyfodol a chefnogi gwireddu ynni adnewyddadwy. Caiff hyn ei amlygu drwy ddynodi dwy Ardal a Rag-aseswyd ar gyfer Ynni Gwynt o fewn Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol (2040) lle mae yna ragdybiaeth o blaid ynni gwynt ar raddfa fawr. Hefyd nodir fod gosodiadau ynni solar a gwynt eraill canolig ac ar raddfa lai nawr yn ddigon cost effeithiol fel bod prosiectau yn dod ymlaen heb gymorthdaliadau, ond maent fel arall wedi eu cyfyngu gan gapasiti'r grid. Mewn cyfuniad â'i gilydd mae yna angen i gydbwyso'r manteision a'r cyfleoedd pendant a gaiff eu creu drwy gyrraedd y targed carbon sero net ochr yn ochr â lleihau effeithiau ar gymunedau a deimlir yn lleol a pharhau i ddiogelu'r asedau hanesyddol a naturiol sy'n cyfrannu at ba mor arbennig yw Conwy.

3.2.5 O ganlyniad mae angen cyflwyno polisïau sy'n cefnogi'r cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer cyflawni'r hierarchaeth ynni a symud tuag at sero net, tra'n dehongli canllawiau'n lleol i gyfyngu ar effeithiau posibl creu ynni ar gymunedau lleol ac asedau hanesyddol a naturiol. Cydnabyddir y bydd technoleg yn newid dros oes y CDLlN. Er na allwn ragweld pob agwedd o'r newidiadau hyn bydd y polisïau a nodir yn y bennod hon yn gefnogol i'r posibiliadau o dechnoleg newydd a chyfredol a byddant yn mabwysiadu ymagwedd hyblyg tuag at arloesedd.

3.2.6 [Y blaenoriaethau i'r Cyngor yw [3]:

- Lleihau faint o ynni carbon uchel rydym yn ei ddefnyddio yng Nghonwy;
- Lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil; a
- Rheoli a hybu'r trawsnewidiad i economi carbon isel yn frwd

3.2.7 Wrth wneud hyn bydd y Cyngor yn ceisio:

- Integreiddio egwyddorion cynllunio adeiladu cynaliadwy mewn datblygiadau newydd;
- Cynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel;

[3] Gweledigaeth ar gyfer datgarboneiddio ac arweinyddiaeth leol: Pennod 5, paragraff 5.9.2, tudalen 95 o Bolisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12

- Integreiddio datblygiad newydd gyda darparu isadeiledd rhwydwaith grid trydan ychwanegol;
- Gwneud y gorau o ran storio ynni,
- Gwneud y gorau o leoliad datblygiadau newydd i alluogi defnydd effeithlon o adnoddau, yn arbennig cludiant ac ynni;
- Sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o ffynonellau ynni lleol, fel rhwydweithiau gwresogi ardal ac ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol;
- Sicrhau fod effaith carbon yn sgil dulliau eraill o greu ynni fel ynni o wastraff mor isel â phosibl; a
- Symud oddi wrth echdynnu mwynau ynni ffosil, fel glo, olew a nwy naturiol, lle mae eu llosgi yn ddwys o ran carbon.

## 3.3 Polisi Strategol Drafft 1: Cefnogi Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

### Cyflwyniad

3.3.1 Mae lleihau'r galw cynyddol am ynni, yn arbennig o ffynonellau tanwydd ffosil, a sicrhau cynhyrchu'r cyfanswm mwyaf posibl o ynni drwy dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel ar bob graddfa yn hanfodol i sicrhau datgarboneiddio ac atal Conwy rhag cael ei 'chloi' mewn sefyllfa lle echdynnir mwy o danwydd ffosil a lle ceir dyfodol gyda lefel uchel o garbon. Mae'r polisi hwn yn darparu'r gefnogaeth strategol gyffredinol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yng Nghonwy, tra'n ceisio hybu lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau lleol.

### Testun y Polisi Drafft

---

**Polisi Drafft 1 Cefnogi Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

*Drwy weithredu'r hierarchaeth ynni, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhoi cryn bwyslais ar hyrwyddo cymysgedd o ffynonellau cynhyrchu ynni, cefnogi storio ynni a lleihau'r galw am ynni drwy fesurau cynllunio adeiladu ac effeithlonrwydd ynni.*

*Rhaid i'r holl gynigion ddangos sut y byddant yn cyflawni twf glân, cyfrannu at ddatgarboneiddio ynni a chefnogi llwyddiant targedau lleihau carbon, yn ogystal â gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.*

---

### Eglurhad

3.3.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o'r holl fathau o dechnolegau ac ar bob graddfa yn gryf i fodloni'r

anghenion o ran ynni yn y dyfodol. I'r perwyl hwn gorfodir CBS Conwy gan Ddeddf yr Amgylchedd (2016) i gynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gaiff ei greu a lleihau allyriadau erbyn 2050, tra bod polisïau cenedlaethol o fewn Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru yn sefydlu'r dulliau ar gyfer cyflawni'r ymrwymiadau hyn. Caiff targedau a gaiff eu gosod gan Ddeddf yr Amgylchedd hefyd eu rheoli drwy weithredu cyllidebau carbon pum mlynedd, sy'n lleihau'r cyfanswm o garbon all gael ei ryddhau ar draws Cymru.

3.3.3 Fel sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru, mae Cynllun Ynni Ardal Leol Conwy yn trosi'r targedau hyn gan Lywodraeth Cymru yn dargedau lleihau carbon lleol sy'n cael eu hystyried drwy'r polisi hwn. Mae'r targedau hyn yn cynnwys:

- Gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy ychwanegol ar y tir a fydd yn creu hyd at 40MW erbyn 2028, ochr yn ochr â fferm wynt Awel y Môr ar y môr a ffynhonnell ynni adnewyddadwy 1 GW dan berchnogaeth leol erbyn 2030;
- Darparu morlyn llanw 1GW erbyn 2035;
- Gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy ychwanegol ar y tir a fydd yn creu hyd at 690MW erbyn 2050[4].

3.3.4 Yn lleol mae'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy wrth gefnogi arallgyfeirio'r sail economaidd a buddion cymunedol wedi eu dogfennu'n helaeth mewn tystiolaeth leol. Mae'r Strategaeth Twf Economaidd [5] yn cefnogi hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddadwy ar draws y Sir, tra bod datgan Argyfwng Hinsawdd[6] yn gosod amcanion er mwyn i CBSC ddod yn sero net a gosod y Cynllun Ynni Ardal Leol erbyn 2030. Yn dibynnu ar y cyfyngiadau penodol a weithredir, mae sawl dogfen tystiolaeth leol yn cefnogi'r gallu i gyflawni'r targedau a nodir yn y Cynllun Ynni Ardal Leol uchod.

3.3.5 [Bydd CBSC yn rhoi pwyslais sylweddol ar dargedau Llywodraeth Cymru a'u troi'n unrhyw bolisïau 'mwy na lleol' yn y dyfodol neu gyllidebau carbon lleol i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel, fel rhan o'r ymagwedd gyffredinol i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chynyddu diogelwch ynni. Mewn amgylchiadau pan gaiff tirwedd a ddiogelir, bioamrywiaeth a dynodiadau ac adeiladau hanesyddol eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau, dim ond effeithiau uniongyrchol na

[4] https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Replacement-LDP/Stage-4-Development-of-Evidence-Base/assets/documents-RenewableEnergy/BP55-Local-Area-Energy-Plan.pdf
[5] CBSC (2017) Strategaeth Twf Economaidd (2017-2027) (conwy.gov.uk)
[6] CBSC (2019) https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Climate-Change/Climate-Emergency-Declaration.aspx

ellir eu dadwneud ar safleoedd ac adeiladau a ddiogelir yn statudol a'u lleoliadau (lle bo hynny'n briodol) a fydd yn cael eu hystyried (gweler Polisi Drafft 2). Yn yr holl achosion, dylai cryn bwyslais gael ei roi ar yr angen i gynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel er mwyn i Gymru fodloni ei thargedau o ran carbon ac ynni adnewyddadwy.

| | Dangosydd | Targed | Ffynhonnell y data | Pwynt adolygu |
|---|---|---|---|---|
| Polisi Drafft 1 | Ffigwr capasiti gosodedig ynni absoliwt[7] | Creu hyd at 40MW o ffynonellau ynni adnewyddadwy ychwanegol ar y tir erbyn 2028. | Y Cynllun Ynni Ardal Leol | 2028 |

## 3.4 Polisi Drafft 2: Cynhyrchu Ynni Solar a Gwynt mewn Ardaloedd a Rag-aseswyd ac Ardaloedd Chwilio Lleol

### Cyflwyniad

3.4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio dwy 'Ardal a Rag-Aseswyd' ar gyfer ynni gwynt sydd wedi eu lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal Conwy [8] lle mae rhagdybiaeth o blaid datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr, gan gynnwys adbweru.

3.4.2 Y tu allan i'r Ardaloedd a Rag-aseswyd mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd sefydlu lleoliadau gofodol priodol ar gyfer 'rhagdybiaeth o blaid' gosodiadau sy'n cynhyrchu llai na 10MW[9]. Gelwir rhain yn Ardaloedd Chwilio Lleol ac maent yn darparu'r canolbwynt ar gyfer datblygiad ynni gwynt a solar ar raddfa ganolig (1 – 10MW).

3.4.3 Mewn mannau eraill yn y Sir, mae'r polisi hwn yn cynnig meini prawf lleol[10]. Yn y lleoliadau hyn, cynigir cymorth ar gyfer datblygiad ynni gwynt a solar ar raddfa fach (fel arfer tua 250kV – 1MW) i gefnogi galw lleol yn uniongyrchol.

3.4.4 Mae'r polisi felly yn sefydlu dulliau i osgoi, lliniaru a gwneud iawn am effeithiau andwyol datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel (gwynt a solar yn benodol) ar bob graddfa.

[7] Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12 (2024) Pennod 5, paragraff 5.9.5, tudalen 95
[8] Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[9] Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12 (2024) Pennod 5, paragraff 5.9.14
[10] Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12 (2024) Pennod 5, paragraff 5.9.15

### Polisi Drafft 2 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy yn yr Ardaloedd a Rag-aseswyd, Ardaloedd Chwilio Lleol a Thu Hwnt

*1. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni ar raddfa fawr sef 10MW neu uwch yn cael eu cefnogi o fewn yr Ardaloedd a Rag-aseswyd ar gyfer Ynni Gwynt, fel nodwyd yn 'Cymru'r Dyfodol' (neu unrhyw fersiwn yn y dyfodol) yn ddibynnol ar fod y rhain yn bodloni'r meini prawf isod.*

*Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau ynni gwynt a solar ar y raddfa ganolig rhwng 1MW a tua 10MW hefyd yn cael eu cefnogi o fewn yr Ardaloedd Chwilio Lleol, yn ddibynnol ar fodloni'r meini prawf isod.*

*Rhaid i'r holl gynigion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ddangos manteision net yn nhermau gwelliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymunedau lleol[11], a chynnwys elfen o berchnogaeth a dosbarthiad lleol[12].*

*Bydd yr holl gynigion yn cael eu cefnogi dim ond lle y dangosir, yn unigol a gyda datblygiad cyfagos presennol neu a gymeradwywyd:*

*a) Na fyddai yna unrhyw risg annerbyniol i gymunedau gerllaw ac anheddau unigol, nac effeithiau gweledol andwyol nac i amwynder[13].*
*b) Na fyddai yna unrhyw effaith annerbyniol ar y dirwedd nac yn weledol, gan gynnwys ar leoliad Parc Cenedlaethol Eryri ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a, lle bo'n briodol, dylai cynigion sicrhau fod eu lleoliadau'n cael eu gwella [14].*
*c) Na fyddai yna unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth natur, rhywogaethau a ddiogelir nac asedau treftadaeth a ddiogelir a, lle bo'n briodol, dylai cynigion sicrhau fod eu lleoliadau'n cael eu gwarchod neu eu gwella.[15][16];*
*d) Na fyddai yna unrhyw effeithiau annerbyniol ar lifogydd na chyrsiau dŵr yn unol â chanllawiau cenedlaethol.*

[11] Polisi 17 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[12] Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru (2020) Perchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni yng Nghymru – er budd Cymru heddiw a chenedlaethau'r dyfodol a Pholisi 21 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol.
[13] Polisi 18 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[14] Polisi 18 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[15] Polisi 18 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[16] Polisi 18 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol

*e) Na fyddai yna unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol o adeiladu neu weithredu'r datblygiad, drwy: gysgodion symudol; sŵn; golau'n adlewyrchu neu belydrau a disgleirdeb; ansawdd yr aer, aflonyddwch electromagnetig* [17]

*f) Na fyddai yna unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol o adeiladu na gweithredu'r datblygiad ar: systemau radar na systemau rheoli traffig awyr (a gosod Systemau Golau Synhwyro Awyrennau); gweithredu cyfleusterau amddiffyn*[18]*; telegyfathrebu; na'r rhwydwaith cludiant.*

*g) Mae yna gapasiti grid angenrheidiol neu storfa ynni gysylltiedig i gefnogi datblygiad.*

*h) Mae egwyddorion yr economi gylchol*[19] *wedi eu dilyn yn unol â Pholisi EN1, gan gynnwys ystyried effaith carbon y deunyddiau sydd eu hangen neu a gaiff eu cynhyrchu mewn Strategaeth Ynni ac Economi Gylchol.*

*i) Mae yna ddarpariaethau derbyniol ar gyfer datgomisiynu'r datblygiad ar ddiwedd ei oes, gan gynnwys cael gwared ar yr isadeiledd ac adfer yn effeithiol ar gyfer ei ail ddefnyddio yn fanteisiol yn y dyfodol.*

*Mewn perthynas â phob datblygiad paneli solar ffotofoltäig, rhaid i gynigion yn y lle cyntaf osgoi datblygu ar y tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Pan fo cynigion yn cael eu cyflwyno ar Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, bydd disgwyl iddynt ddangos sut mae manteision y cynllun yn gwrthbwyso colli tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn sylweddol.*[20]*. Dylai cynigion fel arall sicrhau fod priddoedd a mawn dwfn gwerthfawr yn cael eu diogelu.*

*2. Y tu allan i'r Ardaloedd a Rag-aseswyd ar gyfer Gwynt ac Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer Gwynt a Solar, bydd cynigion ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach (fel arfer tua 250kV – 1MW) yn cael eu cefnogi, yn ddibynnol ar yr isod:*

*a) Cydymffurfedd gyda'r meini prawf a nodir yn 1a) – i) y polisi hwn;*

*b) Dangos nad yw'r rhain yn cyfaddawdu'r gallu i gyflawni targedau ynni disgwyliedig yn yr ardaloedd a ddiffiniwyd*

*c) Dangos cyd-leoli cynhyrchu ynni adnewyddadwy gyda galw lleol.*

[17] Polisi 18 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[18] Polisi 18 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[19] Polisi 18 Testun Ategol Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[20] Paragraffau 3.58 a 3.59 Polisi Cynllunio Cymru

*Ym mhob achos, bydd datblygiadau yn cael eu gwrthod lle byddai yna effaith[21] annerbyniol ar safleoedd, asedau ac adeiladau a ddiogelir yn statudol.*

**Eglurhad:**

3.4.5 Mae CBS Conwy wedi ymrwymo i ymgymryd ag ymagwedd arweinyddiaeth weithredol tuag at ddatgarboneiddio a chefnogi gwireddu targedau ynni adnewyddadwy sy'n berthnasol i'r ardal. Mae'r polisi yn ceisio cyfrannu at leihau carbon a chefnogi manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd o gynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy, ar lefel strategol a lleol.

### Ardaloedd a Rag-aseswyd

3.4.6 Yn y ddwy 'Ardal a Rag-aseswyd' ar gyfer ynni gwynt yn ardal Conwy[22], mae yna ragdybiaeth o blaid datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr. Yn yr ardaloedd hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi modelu'r effaith tebygol ar y dirwedd o fewn yr ardaloedd hyn ac wedi canfod eu bod yn gallu cynnwys datblygiadau cynhyrchu ynni gwynt mewn ffordd dderbyniol, yn amodol ar bolisïau eraill o fewn Cymru'r Dyfodol[23].

3.4.7 Mae datblygiadau ar raddfa fawr yn cael eu dosbarthu fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ymwneud â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a byddant yn cynnwys.

- Pob datblygiad ynni gwynt ar y tir a fyddai'n cynhyrchu 10MW neu fwy.
- Safleoedd cynhyrchu ynni eraill sydd â phŵer creu ynni rhwng 10MW a 350MW.

3.4.8 O fewn yr Ardaloedd a Rag-aseswyd ar gyfer gwynt, bydd cynigion cynhyrchu ynni adnewyddadwy eraill yn cael eu cefnogi ar y sail nad yw gosodiadau yn rhagfarnu'n andwyol ar gyflawnadwyedd cynhyrchu ynni gwynt yn y dyfodol o fewn y lleoliadau hyn[24].

### Ardaloedd Chwilio Lleol

3.4.9 Mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd[25] sefydlu lleoliadau gofodol ar gyfer 'rhagdybiaeth o blaid' gosodiadau sy'n cynhyrchu llai na 10MW yn gyffredinol i fodloni targedau lleol. Caiff rhain eu hadnabod fel 'Ardaloedd Chwilio Lleol' ar gyfer

[21] Polisi 17 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[22] Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[23] Yn benodol Polisi 18 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
[24] Polisi Cynllunio Cymru Paragraff 5.9.17
[25] Polisi Cynllunio Cymru Paragraff 5.9.14

Solar a Gwynt, ac maent yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i gefnogi ac arwain cynhyrchu ynni adnewyddadwy i sicrhau y cyflawnir potensial mwyaf posibl yr ardal lle bo hynny'n bosibl.

3.4.10 Yn dibynnu ar y cyfyngiadau a gaiff eu hystyried mae yna densiynau o fewn y dystiolaeth leol a baratowyd yn ddiweddar o ran sefydlu sut caiff gofynion Polisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun Ynni Ardal Leol eu bodloni yng nghyd-destun y CDLlN. Mae'r rhain wedi eu nodi yn Nhabl 2. Mae'r 'Ardaloedd Chwilio Lleol' ar gyfer gwynt a solar wedi eu llunio yn seiliedig ar gyfuniad o gyfyngiadau, sy'n cael eu cyfiawnhau yn Atodiad 1.

**Tabl 2 yn dangos capasiti yr Ardaloedd Chwilio Lleol**

| | Gwynt | Solar |
|---|---|---|
| Targedau Llywodraeth Cymru | • I 70% o'r trydan mae Cymru'n ei ddefnyddio ddod o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030;<br>• I un Gigawat o gapasiti ynni adnewyddadwy Cymru fod mewn perchnogaeth leol erbyn 2030; ac<br>• I brosiectau ynni newydd fod ag o leiaf elfen o berchnogaeth leol. | |
| Targedau Ynni'r Cynllun Ynni Ardal Leol | 40MW erbyn 2028 | |
| Capasiti Posibl Asesiad Ynni Adnewyddadwy[26] | 0MW | |
| Capasiti Posibl Astudiaeth o Oblygiadau | 496MW | 2,231MW |
| Capasiti Posibl Ardaloedd Chwilio Lleol [27] | 40MW | 948MW |

3.4.11 Ar y pwynt hwn, nid yw'r diffiniad o gyfyngiadau cynllunio i lywio'r Ardaloedd Chwilio Lleol yn ystyried ffactorau ehangach fel cyfyngiadau'r grid, y gyfran o dechnolegau adnewyddadwy gwahanol all gael eu hintegreiddio i'r system ynni, effaith gronnol na chystadlu am ddefnydd tir. Ni ddylid trin y capasiti a nodwyd fel rhywbeth ychwanegol, yn hytrach fe ddylid ei drin fel y capasiti uchaf posibl o ystyried fod yna ychydig o orgyffwrdd rhwng Ardaloedd a Rag-aseswyd Cymru'r Dyfodol a'r

[26] CBSC (2019) BP33 Asesiad Ynni Adnewyddadwy (conwy.gov.uk)

[27] Dylai'r capasiti gael ei drin fel adnodd monitro dangosol ar gyfer capasiti posibl, gan nodi fod yna orgyffwrdd gydag ardaloedd a rag-aseswyd Cymru'r Dyfodol, yn ogystal â rhwng Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer ardaloedd gwynt a solar. Felly ni ddylid ystyried y rhifau fel rhai ychwanegol a dylid eu trin fel y rhai uchaf posibl, a fyddai'n cael eu mireinio drwy gyfyngiadau capasiti'r grid.

Ardaloedd Chwilio Lleol. Caiff yr ystyriaethau hyn felly eu hadlewyrchu o fewn y fframwaith polisi hwn.

3.4.12 Caiff newidiadau mewn cyfyngiadau a ystyrir ar gyfer ynni solar a gwynt eu llywio gan Bolisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12[28], sy'n cryfhau diogelu'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ar gyfer cynigion yn ymwneud â phaneli solar ffotofoltäig yn benodol, disgwylir y bydd y cynigion yn dangos sut maent wedi osgoi'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a lle nad yw hynny'n bosibl dangos sut roedd manteision y cynllun yn gwrthbwyso colli Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn sylweddol.[29][30]

### Polisïau lleol yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer Cynhyrchu Ynni Solar a Gwynt y tu allan i Ardaloedd a Rag-aseswyd ac Ardaloedd Chwilio Lleol

3.4.13 Y tu allan i'r Ardaloedd a Rag-aseswyd ar gyfer gwynt a'r Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer cynhyrchu ynni solar a gwynt, mae gofyn i CBSC sefydlu polisïau lleol yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer mathau a graddfeydd eraill o gynhyrchu.

3.4.14 Mae tir y tu allan i'r ardaloedd hyn yn fwy cyfyngedig ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy. O ganlyniad tra bo CBSC yn hyrwyddo cyd-destun polisi cadarnhaol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe gydnabyddir y bydd gosodiadau'n llai a bydd cyswllt cryf rhyngddynt â'r galw yn lleol. Drwy weithredu meini prawf polisi, a sicrhau fod yna gyd-leoli amlwg o ran cynhyrchu ynni a'r galw, bydd yn sicrhau fod effeithiau'n cael eu hosgoi, eu lliniaru ac y gwneir yn iawn amdanynt tra'n cyflawni manteision lleol datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa lai rhwng 250kV a 1MW.

### Technolegau Eraill

3.4.15 Bydd technolegau eraill ar gyfer ynni adnewyddadwy yn cael eu cefnogi o fewn yr Ardaloedd a Rag-aseswyd ar gyfer Ynni Solar a Gwynt ac Ardaloedd Chwilio Lleol, gan gynnwys biomas treulio anaerobig, hydrodrydan, gwres o'r ddaear a chyfleusterau storio ynni (ymysg eraill), cyn belled ag nad yw'r rhain yn rhagfarnu datblygiad ynni adnewyddadwy gwynt neu solar.

---

[28] Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) Mewn perthynas â phob math o ddatblygiad, mae paragraff 6.4.26 o'r ddogfen nawr yn nodi 'Mae yna ragdybiaeth yn erbyn pob ffurf arall o ddatblygiad mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fel mater o egwyddor a dylai'r rhagdybiaeth hon gael ei hadlewyrchu'n briodol yng nghynlluniau'r datblygiad a'r penderfyniadau yn ymwneud â rheoli'r datblygiad.'
[29] Paragraffau 3.58 a 3.59 Polisi Cynllunio Cymru
[30] Llywodraeth Cymru (2022) https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-08/best-and-most-versatile-agricultural-land-and-solar-pv-arrays.pdf

3.4.16 Mae'r manylion technegol a'r diffiniadau sydd eu hangen ar gyfer deall nodweddion a goblygiadau cynllunio'r technolegau amrywiol hyn i'w canfod yn y Canllaw Ymarfer - Goblygiadau Cynllunio Datblygiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel. Bydd hyn yn cynorthwyo'r asesiad o gynigion unigol.

3.4.17 Dylid ystyried y potensial ar gyfer effeithiau cronnol technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel o'r un dechnoleg neu deipoleg neu rai gwahanol. Pan fo yna bosibilrwydd o niwed o ganlyniad i'r dirwedd, effaith weledol, sŵn, ecoleg, asedau hanesyddol a dŵr ar y tir a dŵr wyneb, dylid cynnwys mesurau lliniaru priodol yng nghynnig y datblygiad.

Gweithredu

3.4.18 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod y bydd datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn arwain at ychydig o newidiadau amgylcheddol, yn lleol ac i'r dirwedd yn ehangach. Disgwylir na fydd yna unrhyw effeithiau andwyol o ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy neu garbon isel ar uniondeb ardaloedd a safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol neu'n genedlaethol, nac unrhyw effeithiau annerbyniol o ganlyniad i ddatblygiad ar asedau hanesyddol a ddiogelir.

3.4.19 Ym mhob achos, dylai'r dyluniad geisio cynnwys y newidiadau hyn yn greadigol mewn dulliau sy'n gadarnhaol ac osgoi effeithiau andwyol neu annerbyniol ar bob math o dderbynyddion. Bydd hyn yn cynnwys dangos drwy'r cais sut mae penderfyniadau ar ddyluniad, cynllun a lleoliad ac ystyriaethau allweddol eraill wedi eu llywio i gyflawni manteision o ran y dirwedd, ac ystyriaethau o ran bioamrywiaeth a gwytnwch yr ecosystem. Disgwylir y bydd buddion net i fioamrywiaeth yn cael eu sicrhau gan ddefnyddio ymagwedd fesul cam a, phan fo angen, dylai cynigion gael eu llywio gan asesiad o'r dirwedd a'r effaith weledol.

3.4.20 Bydd datblygiadau isadeiledd cysylltiedig sydd eu hangen i gynorthwyo cyflawni cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel hefyd yn cael eu cefnogi ar gyfer cynlluniau o bob maint, er enghraifft isadeiledd grid [31] a chyfleusterau storio ynni newydd[32] cyn belled â'u bod yn cyd-fynd â pholisïau eraill y Cynllun. Ym mhob achos dylid ymgysylltu gyda gweithredwr y rhwydwaith dosbarthu a throsglwyddo ar gyfer yr ardal i gadarnhau argaeledd capasiti'r grid a chysylltiadau.

3.4.21 O ddechrau'r broses o ddewis a dylunio'r safle, dylai buddion net ystyried y buddion amgylcheddol ehangach hynny sy'n gysylltiedig gyda'r cynnydd mewn cynhyrchu

[31] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, Pennod 5, paragraff 5.7.10, tudalen 92
[32] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, Pennod 5, paragraff 5.7.12, tudalen 93

ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae'r cynigion yn cefnogi cyfleoedd i greu swyddi yn lleol, creu buddion cymunedol lleol a chreu buddion economaidd lleol. I gyflawni targed o 1GW o ynni adnewyddadwy sydd dan berchnogaeth leol erbyn 2030, disgwylir fod yr holl gynigion yn cael eu cefnogi gan lefel o berchnogaeth, dosbarthiad a dyluniad lleol a chymunedol (Polisi Drafft 3). Disgwylir fod rhaid i'r holl ymgeiswyr ymgymryd â rôl ragweithiol mewn ymgysylltu a chyd-ddylunio cynigion ynni gyda'r gymuned leol.

3.4.22 Dylid ystyried yr effeithiau ar y defnydd o adnoddau ym mhob cam o gylch bywyd y datblygiad drwy gydol y broses ddylunio, gan gynnwys yn ystod y broses o adeiladu'r datblygiad, ei weithredu, datgomisiynu, adferiad ac ôl-ofal. Ym mhob cam dylai'r cynigion ddangos hyblygrwydd ac addasu i dueddiadau'r dyfodol a cheisio sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran adnoddau a'r economi gylchol wrth ddewis deunyddiau. Yn ystod y broses adeiladu, rhaid darparu Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu i ddangos fod unrhyw effeithiau dinistriol posibl sy'n codi o gamau adeiladu a datgomisiynu'r cynnig yn cael eu hosgoi, gan asesu'r niwed posibl i unrhyw dderbynyddion a chyfyngiadau lleol sensitif. Dylai ail-ddefnyddio'r tir yn fanteisiol yn y dyfodol a'r deunyddiau ar ddiwedd oes y cynllun gael eu hymgorffori'n glir o'r camau cynharaf a'u sicrhau mewn Cynllun Datgomisiynu.

3.4.23 Bydd 'lefel briodol o berchnogaeth tir' yn cael ei asesu yn unol â Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar 'berchnogaeth leol ynni yng Nghymru - er budd i Gymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol' (neu unrhyw ddiweddariadau dilynol). Er nad yw'n gorchymyn mae'r polisi hwn yn nodi sut gall cynlluniau fod 100% o dan berchnogaeth leol, yn eiddo i'r gymuned yn rhannol neu gael eu cefnogi gan fuddsoddiad lleol. Ystyrir y gall unrhyw fodel y gellir dangos yn gadarn eu bod yn ysbryd a nod y targed gael ei ystyried i gyflawni'r disgwyliad o ran perchnogaeth leol.

| | Dangosydd | Targed | Ffynhonnell y data | Pwynt adolygu |
|---|---|---|---|---|
| Polisi Drafft 2 | Nifer y cynlluniau a'u Megawat a gymeradwywyd wedi apêl yn erbyn argymhelliad y swyddog. | | Data CBSC | 2030 |
| | Nifer y cynlluniau a'u Megawat a wrthodwyd yn dilyn apêl yn unol ag argymhelliad y swyddog. | | | |

## 3.5 Polisi Drafft 3: Ynni Adnewyddadwy a Arweinir gan y Gymuned a sydd Er Budd i'r Gymuned

### Cyflwyniad

3.5.1 I gyflawni targed Llywodraeth Cymru fod 1GW o'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn dod o dan berchnogaeth leol erbyn 2023, mae'n hanfodol fod CBSC yn darparu cefnogaeth o ran polisi i gyfleoedd ar gyfer perchnogaeth leol a sy'n fwy democrataidd.

### Testun y Polisi Drafft

**Polisi Drafft 3 Ynni Adnewyddadwy a Arweinir gan y Gymuned a sydd Er Budd i'r Gymuned**

*Bydd cynigion ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel a arweinir gan y gymuned yn cael eu hannog a'u cefnogi, yn ddibynnol ar fodloni'r meini prawf ym Mholisi 2.*

### Eglurhad

3.5.2 Ar hyd a lled Cymru, ac yn arbennig yn y cymunedau gwledig sydd oddi ar y grid, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad ffynonellau ynni adnewyddadwy sy'n galluogi cymunedau i gynnal eu hanghenion o ran ynni tra'n datgarboneiddio. Mae hefyd yn cydnabod fod datblygiad technolegau ynni adnewyddadwy a arweinir gan y gymuned yn ymagwedd effeithiol i wella lles unigolion a chymunedau a meithrin gwytnwch yn erbyn costau byw cynyddol, tlodi tanwydd a newid hinsawdd[33].

3.5.3 Cydnabyddir fod grwpiau cymunedol a sefydliadau sy'n ceisio cynnig prosiectau ynni adnewyddadwy newydd angen cymorth penodol o bosibl i lywio eu ffordd drwy'r system gynllunio[34]. Bydd CBSC yn cynorthwyo i hwyluso'r broses hon wrth ymdrin â'r prosiectau hyn a lle bo angen bydd yn cynorthwyo i gyfeirio datblygiadau i'r lleoliadau cywir a nodi'n glir y meini prawf y bydd y cynigion yn cael eu gwerthuso yn eu herbyn.

Hefyd anogir unigolion preifat i ddatblygu cynlluniau ynni dan berchnogaeth leol sy'n hwyluso byw yn gynaliadwy yn wledig ac oddi ar y grid a galluogi gwytnwch mewn cyflenwad ynni i ardaloedd sydd wedi eu lleoli yn bell o gysylltiad i'r grid. Mae hyn yn

[33] 3.5.7 Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (2023-38)

[34] Mae hyn yn cefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i sicrhau fod polisi ynni yn parhau i sicrhau nad yw anghydraddoldebau mewn lles ym meysydd iechyd, statws economaidd-gymdeithasol ac oed yn cael eu heffeithio'n andwyol gan addasu i newid hinsawdd.

ymwneud â chynlluniau sy'n ffurfio ased ar gyfer arallgyfeirio ar fferm, gan gefnogi byw yn gynaliadwy yn wledig ac oddi ar y grid, rhywbeth a allai godi yn ardal CBSC.

| | Dangosydd | Targed | Ffynhonnell y data | Pwynt adolygu |
|---|---|---|---|---|
| Polisi Drafft 3 | Ffigwr capasiti gosodedig ynni absoliwt[35] gan grwpiau cymunedol | Cyfraniad Conwy tuag at y targed o 1GW o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir o dan berchnogaeth leol erbyn 2030 | Llywodraeth Cymru | 2030 |

[35] Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12 (2024) Pennod 5, paragraff 5.9.5, tudalen 95